Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

03 Mai 2018

Annwyl Dai,

Cadernid Meddwl: Adroddiad ar y newid mawr sydd ei angen o ran cefnogaeth ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Yn dilyn gohebiaeth flaenorol, roeddwn am dynnu eich sylw at gyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'w ymchwiliad i iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc. O ystyried diddordeb cyffredin ein pwyllgorau mewn iechyd emosiynol ac iechyd meddwl, rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad a'i argymhellion o ddiddordeb i gydweithwyr ar y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, yn enwedig yn sgil eich ymchwiliad presennol i atal hunanladdiad.

Mae paragraffau 231 i 235, 264 a 291 o'n hadroddiad *Cadernid Meddwl* yn amlinellu'r dystiolaeth a gawsom mewn perthynas â hunanladdiad. Yn gryno, dywedwyd wrthym y canlynol:

- Yn 2016, cafwyd y nifer fwyaf o achosion o hunanladdiad ymhlith pobl 15-19 oed yng Nghymru, sef y nifer fwyaf mewn pum mlynedd, a'r ail fwyaf mewn 12 mlynedd;
- Er na fu cynnydd amlwg yn ddiweddar mewn hunanladdiad ymhlith plant a phobl ifanc dan 18 oed (a oedd yn parhau'n gyson ar o oddeutu 12 achos y flwyddyn), roedd y cynnydd diweddar mewn hunanladdiad a adroddwyd ymhlith pobl 18 a 19 oed.
- Mae'r cyfnod pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion yn adeg lle maent yn arbennig o agored i niwed, gyda chynnydd mewn cyfraddau hunanladdiad ymhlith pobl 18 a 19 oed;
- Mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn y DU bum gwaith yn fwy tebygol na'u cyfoedion o geisio lladd eu hunain; ac

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

- Mae galluogi pobl i siarad am hunan-niwed a hunanladdiad yn lleihau, yn hytrach na chynyddu, ymdrechion i gyflawni'r ddau.

Yn sgil y dystiolaeth frawychus a gyflwynwyd am gynnydd sylweddol mewn derbyniadau hunan-niwed i adrannau damweiniau ac achosion brys ymhlith plant a phobl ifanc yn y tair blynedd diwethaf, a'r gyfradd hunanladdiad uwch ymhlith pobl 18-19 oed yn ystod 2016, mae ein **hargymhelliad 15** yn galw ar Lywodraeth Cymru, o fewn chwe mis i gyhoeddi ein hadroddiad, i amlinellu sut y gellid cyfeirio adnoddau tuag at alluogi timau argyfwng ym mhob bwrdd iechyd i ddarparu hyfforddiant a rhaeadru arbenigedd i wasanaethau rheng flaen eraill, yn enwedig cydweithwyr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, mewn ardaloedd ffiniol (i wella cysylltiadau trawsffiniol â'r canolfannau a ddefnyddir amlaf gan gleifion sy'n byw yng Nghymru), ac mewn ysgolion (yn enwedig i wneud sgyrsiau am hunanladdiad a hunan-niwed yn fater o drefn).

Mewn ymateb i'r dystiolaeth a gafwyd o ran pwysigrwydd galluogi pobl i siarad am hunanladdiad, mae ein **hargymhelliad 16** yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda sefydliadau arbenigol i:

- ddarparu, o fewn tri mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, canllawiau i ysgolion ynghylch siarad am hunanladdiad a hunan-niweidio, i chwalu'r syniad y bydd unrhyw drafodaeth yn arwain at ymateb "heintus";
- rhoi blaenoriaeth i ddarparu canllawiau i ysgolion lle bu hunanladdiad neu amheuaeth o hunanladdiad; a
- sicrhau bod hyfforddiant iechyd meddwl sylfaenol, gan gynnwys sut i siarad am hunanladdiad, yn rhan o hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus, fel bod pob athro yn gallu siarad am hynny.

Disgwyliwn ymateb i'n hargymhellion gan Lywodraeth Cymru erbyn dydd Iau 7 Mehefin. Byddwn yn sicrhau bod copi o'r ymateb yn cael ei rannu â chi fel y gall – ynghyd â'n hadroddiad – helpu i lywio eich ymchwiliad pwysig i atal hunanladdiad.

Yn gywir,

Lynne Neagle AC
Cadeirydd